



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Cenarth

**Cenarth
Castellnewydd Emlyn
SA38 9JP**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Cenarth

Enw'r darparwr	Ysgol Cenarth
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ceredigion
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	93
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	59
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	18
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	23.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	11.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	22.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	09/01/2020
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	04/04/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	23/10/2023

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Cenarth yn gymuned hapus, deuluol a chroesawgar. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar ble mae disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn barchus. Mae'r disgyblion yn dangos agwedd bositif at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Ar adegau, mae'r profiadau dysgu yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, sy'n ennyn eu diddordeb. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ei wreiddio a'i ddatblygu'n gyson, a chyfyng yw'r cyfleoedd i fod yn ddysgwyr ymholgar ac annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn dda erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Er hyn, cyfyng yw strategaethau darllen y lleiafrif yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a'i ddathlu'n ddeniadol o gwmpas yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i'r disgyblion ac yn ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu mewn perthynas â'u themâu dysgu. Er hyn, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol, gydag arweinwyr yn adnabod agweddau o waith yr ysgol sydd angen eu gwella, a'r camau sydd eu hangen i wireddu hyn. Mae gweithgareddau monitro a gwerthuso'r ysgol yn graff ac yn gywir. Mae arweinwyr yn ystyried barnau'r disgyblion a'r llywodraethwyr yn ofalus gyda'u llais yn dylanwadu'n briodol ar gyfeiriad yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu eu gweledigaeth yn glir â phawb ac mae cymuned yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn 'Dechrau da' i gael 'Dyfodol Disglair.' Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol. Mae angen i'r ysgol fynd i'r afael â'r pryderon diogelu yn ymwneud â safle'r ysgol.

Argymhellion

- A1 Ymateb i'r pryderon diogelu yn ymwneud â safle'r ysgol
- A2 Datblygu medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg
- A3 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau
- A4 Datblygu cyfleoedd i hyrwyddo medrau annibynnol disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sy'n is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, yn enwedig eu medrau yn y Gymraeg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn y rhan fwyaf o'u meysydd dysgu.

Er bod mwyafrif y disgyblion yn ymuno â'r ysgol heb y gallu i siarad Cymraeg, maent yn caffael yr iaith yn gynnar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn defnyddio geirfa bwrpasol wrth gyfathrebu ag eraill wrth ddisgrifio palas Seithennyn o chwedl Cantre'r Gwaelod yn llwyddiannus. Maent yn sgwrsio am eu gwaith a'u diddordebau gyda brwdfrydedd naturiol. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r mwyafrif yn sgwrsio'n hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae medrau gwrando bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac ymateb yn barchus i gyfraniadau oedolion a chyfoedion.

Mae mwyafrif disgyblion ieuengaf yr ysgol yn dod i ddarllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn darllen gyda mynegiant priodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn medru trafod cynnwys storïau dosbarth gyda brwdfrydedd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau darllen yn briodol ac yn trafod cynnwys testun yn synhwyrol ac aeddfed. Fodd bynnag, er bod medrau darllen Cymraeg disgyblion yn parhau i ddatblygu, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd deall cynnwys yr hyn y maent yn ei ddarllen yn y Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau creu marciau ac yn ffurfio llythrennau a geiriau syml yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n rhydd ac yn dechrau cyflwyno eu gwaith yn drefnus a chlir. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn briodol gan ddefnyddio ffurf a geirfa berthnasol, er enghraifft wrth ddwyn i gof taith y carcharorion yn dilyn sioe am yr Ail Ryfel Byd. Ym Mlynnyddoedd 3 a 4, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol at wahanol ddibenion, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau i baratoi brechdanau amrywiol er mwyn creu ffilm yn ddigidol. Er hynny, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu darnau estynedig ac i fireinio a gwella eu gwaith mewn amrywiaeth digon eang o gyd-destunau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda. O oedran cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o rifau, maint a siâp. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn adeiladu ar y medrau hyn wrth iddynt ddysgu adio a thynnu rhifau. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn ehangu ar eu medrau yn fuddiol; er enghraifft, mae'r mwyafrif ym Mlwyddyn 3 a 4 yn defnyddio eu medrau rhif wrth luosi a rhannu gyda 10 a 100. Datblygant ddealltwriaeth sicr o werth lle mewn rhifau dau ddigid. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrin â'r system rif yn fedrus ac yn dangos dealltwriaeth o werth rhifau negyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 3 i 6 yn gweithio'n dda gyda'r pedair rheol rhif, yn siapio a mesur ac yn datblygu medrau trin data cadarn. Mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhif yn fedrus wrth ddatrys problemau, er enghraifft o ran heriau sy'n ymwneud ag arian. Maent yn hapus i ddysgu o'u camgymeriadau ac i rannu awgrymiadau â'u cyfoedion wrth wirio atebion.

Mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio dyfeisiau digidol yn bwrpasol i atgyfnerthu eu medrau llythrennedd a rhifedd a chreadigrwydd. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn medru creu graff bloc o ffeithiau am ddisgyblion y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn defnyddio'r we i ymchwilio'n annibynnol er mwyn dod o hyd i wybodaeth ar amrywiaeth o destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o sut i drin data a chreu taenlenni. Enghraifft dda o hyn yw cronfa ddata'r disgyblion am lyfrau T.Llew Jones.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft drwy efelychu arddull arlunwyr enwog a lleol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn fedrus i gynhyrchu ac arddangos gwaith celf ddeniadol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a gwersi sy'n hybu eu hiechyd a'u lles yn effeithiol, er enghraifft yn ystod sesiynau ffitrwydd dyddiol.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a chroesawgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr gyda pharch a chwarteisi. Mae naws deuluol braf yn bodoli ynddi sy'n caniatáu i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddatblygu'n unigolion iach a hyderus sy'n barod iawn i ymgysylltu â'u dysgu.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth ac maent yn ofalgar o'i gilydd wrth gydweithio a chyd-chwarae. Cefnogir yr ethos o deulu ac agosatrwydd disgyblion at ei gilydd yn effeithiol drwy waith y 'bydis'. Mae'r system 'bydis' yn rhoi ystyriaeth ofalus i eraill, wrth i ddisgyblion hyn fod yn wyliadwrus o ddisgyblion ieuenga'r ysgol a chynnig cymorth gwerthfawr iddynt os ydynt yn drist neu'n unig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod oedolion yn gwranddo ar eu pryderon ac yn eu cynorthwyo i ddatrys unrhyw ofid sydd ganddynt. Mae ymweliadau cyson gan yr heddwes cymunedol, sy'n cynnig sesiynau ar ystod o themâu fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglon siarad â dieithriaid, yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o sut i gadw'n ddiogel yn y gymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi, yn ymateb i gwestiynau gan athrawon a chymorthyddion yn hyderus, ac yn ymroi i'w tasgau yn syth. Mae llawer yn arddangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei ddysgu, yn ymgymryd â'r gweithgareddau a ddarperir yn frwdfrydig, ac yn llwyddo i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Maent yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau staff, yn cydweithio'n gytûn ag eraill ac yn parchu safbwyntiau ei gilydd wrth drafod. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth ymwneud â thasgau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn defnyddio strategaethau pwrpasol i'w helpu i oresgyn unrhyw anawsterau sy'n eu hwynebu. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn effeithiol i symud eu dysgu ymlaen yn bwrpasol wrth ymateb i sylwadau staff a chyfoedion.

Mae llawer yn trin a thrafod eu gwaith yn hyderus ac yn cael cyfleoedd i leisio'u barn am yr hyn yr hoffent ddysgu. Maent yn cynnig syniadau i'w cynnwys yn eu themâu, ac yn eu rhannu'n bwrpasol â'u hathrawon. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r amrywiol bwyllgorau yn cyfrannu'n fuddiol at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r pwyllgor eco yn hyrwyddo cynaliadwyedd yn effeithiol trwy atgoffa disgyblion i arbed, aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau. Mae'r disgyblion sy'n aelodau o'r pwyllgor Cymraeg yn cael dylanwad da ar hybu'r Gymraeg a Chymreictod y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymfalchïo yn eu gallu i siarad Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â bwyta ac yfed, gweithgarwch corfforol a'u lles personol, gan gynnwys sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Trwy waith elusennol amrywiol, mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o anghenion eraill llai ffodus. Maent yn codi arian at y banc bwyd lleol ac yn cyfrannu'n hael at achosion da eraill. Mae cysylltiadau agos yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae disgyblion yn ymweld â mannau o ddiddordeb yn yr ardal leol er mwyn atgyfnerthu eu dysgu a'u dealltwriaeth o themâu dosbarth. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad disgyblion hŷn yr ysgol â gwrsyll carcharorion o gyfnod yr Ail Ryfel Byd. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'u cynefin ac maent yn datblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer dysgu sy'n adlewyrchu egwyddorion a diwylliant y Cwricwlwm i Gymru. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu'n hyrwyddo'r weledigaeth yn llwyddiannus ac mae athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae cwricwlwm cynhwysol yn hyrwyddo cyfle teg i'r holl ddisgyblion elwa ar brofiadau, yn enwedig disgyblion ag ADY, disgyblion bregus a rhai sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion eu disgyblion a'u harddull ddysgu gan ddefnyddio'r wybodaeth honno'n synhwyrol er mwyn cynllunio profiadau dysgu diddorol iddynt.

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli ymysg staff yr ysgol, sy'n meithrin amgylchedd ddysgu hapus a chynhwysol i ddisgyblion. Mae'r athrawon a chymorthyddion yn adnabod ac ymateb i anghenion y disgyblion yn dda iawn. Mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion sy'n creu

amgylchedd dysgu pwrpasol, tawel a chefnogol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt a'u bod yn gallu gofyn cwestiynau os oes angen cymorth gyda'u dysgu.

Mae gan athrawon ymagwedd fyfyrion a chydweithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm, gan fireinio eu cynlluniau i ystyried y dulliau sydd fwyaf addas ar gyfer eu disgyblion. Maent yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o egwyddorion cynnydd Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant yn nysgu disgyblion ar draws yr ysgol ac i sicrhau bod asesiadau'n ddilys, yn gywir, yn ddibynadwy ac yn llunio camau datblygu nesaf ar gyfer dysgwyr unigol.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda gan sicrhau bod y rhan fwyaf yn ymgysylltu'n llawn mewn gwersi a'u profiadau dysgu. Mewn llawer o'r gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau cyson uchel o ddisgyblion. Ar adegau, maent yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn ceisio ennyn diddordeb a datblygu dysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ei wreiddio a'i ddatblygu'n gyson ar draws yr ysgol. Mewn tua hanner o ddsbarthiadau, mae cyfnodau hir ble mae staff yn gor-arwain y dysgu sy'n llesteirio cyffro'r dysgu ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr fod yn ymholgar ac annibynnol.

Nodwedd amlwg o waith yr ysgol yw'r modd y mae athrawon ac ymarferwyr yn annog y disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Trwy gynllunio themâu am yr ardal leol, mae athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn y disgyblion o'u cymdogaeth drwy gynnig profiadau byw ac ystyrlon iddynt, er enghraifft wrth ymweld â'r Amgueddfa Cwryglau a'r hen felin yng nghanol y pentref.

Mae bron pob un o'r staff yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Maent yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gweithgareddau er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu. Maent yn darparu adborth ysgrifenedig syml ac mae'r disgyblion yn ymateb iddo'n rheolaidd. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn hyderus am yr hyn sy'n dda yn eu gwaith a'u camau dysgu nesaf.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn drwyadl gan wneud defnydd pwrpasol o asesiadau amrywiol sy'n sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen i lwyddo. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn y rhan fwyaf o agweddau o'u dysgu.

Mae athrawon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion mewn adroddiad cynnydd blynyddol i rieni. Maent hefyd yn cynnal prynhawn agored 'Dewch i Ddathlu', lle mae'r disgyblion yn rhannu a dathlu eu dysgu â'u rhieni, tra bod yr athrawon ar gael i drafod unrhyw faterion penodol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae perthynas waith lwyddiannus yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion sy'n arwain at greu cymuned hapus a gofalgar. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn cefnogi eu hanghenion personol a chymdeithasol yn fedrus. O ganlyniad, mae'r ethos meithringar a gofalgar sy'n bodoli yn cael effaith gadarnhaol ar les, ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion yn eu dysgu. Mae gan yr

ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu plant. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw'r arweinwyr at fater iechyd a diogelwch yn ymwneud â safle'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'r staff yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r gweithdrefnau hyn yn galluogi athrawon i adnabod anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gynnar iawn ar eu taith drwy'r ysgol.

Darperir cefnogaeth gadarn i ddisgyblion sydd ag ADY. Ceir cydweithio effeithiol rhwng y cydlynnydd ADY, staff, rhieni ac asiantaethau allanol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n fwriadus â nhw er mwyn cynnig y profiadau a'r gefnogaeth orau posibl i bob disgybl. Yn sgil arweiniad clir a chadarn y cydlynnydd ADY, mae staff wedi ymgymryd ag hyfforddiant gwerthfawr er mwyn mireinio'r ddarpariaeth i fodloni'r gofynion newydd. Er enghraifft, maent wedi cael hyfforddiant gwerthfawr ar sut i baratoi cynlluniau datblygu unigol i gefnogi disgyblion o fewn eu dosbarthiadau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ganolog i'r broses o osod targedau yn eu cynlluniau unigol ac mae rhieni a staff yn rhan annatod o'r trafodaethau.

Mae'r holl staff yn hybu Cymreictod yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion dealltwriaeth gadarn o fuddion bod yn ddwyieithog. Mae digwyddiadau fel y 'Ffair Iaith' a gweithgareddau'r ysgol i hyrwyddo Cymreictod yn sicrhau bod disgyblion, gan gynnwys hwyrdyfodiaid, yn meithrin balchder yn yr iaith Gymraeg. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cysylltiadau cryf â'r gymuned leol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn gadarn. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i ddatblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o hanes lleol. Er enghraifft, wrth ymweld â'r felin flawd gyfagos i gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth a'u treftadaeth yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn maent yn dysgu trwy eu hannog i gyfrannu cwestiynau pwrpasol oddi fewn i'w themâu.

Teimla'r rhan fwyaf o rieni bod yr ysgol yn amgylchedd hapus a chynhwysol ac maent yn gwerthfawrogi'r gofal a'r arweiniad mae eu plant yn eu cael. Maent yn gwerthfawrogi'r berthynas gadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref sy'n esgor ar ymdeimlad cryf o gymuned. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth berthnasol â rhieni yn rheolaidd sy'n meithrin cydweithio cynhyrchiol o ran lles ac addysg pob disgybl.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo a myfyrio ar egwyddorion sy'n eu helpu i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol a chyfrannu'n gadarnhaol at waith yr ysgol a'r gymuned yn ehangach. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio'n fwriadus â grwpiau cymunedol fel y banc bwyd lleol er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i deuluoedd sydd mewn angen.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn bwrpasol am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Cânt gyfleoedd gwerthfawr oddi fewn i gwricwlwm yr ysgol i gadw'n heini. Enghreifftiau da o hyn yw'r gwersi nofio ysgol gyfan a hyfforddiant beicio sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwella eu ffitrwydd a'u lles yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg ac ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol yn effeithiol. Maent yn cael cyfleoedd pwrpasol i werthfawrogi ac adnabod nodweddion gwahanol fathau o gerddoriaeth ac i berfformio, cyfansoddi ac arddangos eu gwaith gerbron cynulleidfa. Er enghraifft, mae disgyblion ieuenga'r ysgol wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i greu seinwedd gan ddefnyddio offerynnau taro yn greadigol i gyfleu taith yr afon Teifi.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol cadarn a chllir ar gyfer yr ysgol. Mae ei gweledigaeth wedi ei seilio ar greu amgylchedd dysgu hapus a theuluol sy'n galluogi'r dysgwyr i dderbyn 'Dechrau da' i gael 'Dyfodol Disglair.' Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, ac mae ei heffaith i'w gweld ar ddatblygiad, cynnydd a lles y disgyblion.

Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Mae'r tîm brwdfrydig o athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun lleol a Chymreig. Mae lles y disgyblion yn greiddiol i'w holl waith ac mae'r staff a'r disgyblion yn cydweithio'n hapus. Mae'r pennaeth yn hwyluso cydweithio effeithiol â holl randdeiliaid yr ysgol ac yn chwilio am ddulliau diddorol er mwyn sbarduno meddwl a dychymyg y disgyblion, er enghraifft drwy gynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth am fyd natur lleol.

Mae gan y llywodraethwyr gyfrifoldebau am feysydd penodol, fel agweddau disgyblion tuag at ddysgu neu ddysgu proffesiynol staff, gan ymweld â'r ysgol er mwyn trafod yr agweddau hyn gyda staff. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am ddatblygiadau diweddar Cwricwlwm i Gymru, ac am ddisgwyliadau diwygio darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'u heffaith ar yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn cynnal teithiau dysgu ar y cyd â'r pennaeth neu staff allweddol, gan graffu ar waith disgyblion a thrafod datblygiadau o ran addysgu a chynllunio. Er enghraifft, bu llywodraethwyr ar daith dysgu ar y cyd â chydlynnydd llythrennedd yr ysgol gan ganolbwyntio ar weithgareddau darllen. Yn sgil y gwaith, penderfynwyd buddsoddi mewn llyfrau digidol i ysgogi disgyblion i fwynhau darllen llyfrau yn y Gymraeg. Bellach, mae'r newidiadau hyn yn dechrau cael effaith ar gynnydd darllen y disgyblion. Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd hyrwyddo diwylliant o fwyta ac yfed yn iach ymysg y disgyblion. Trwy eu gwaith manwl, maent yn gweithredu'n effeithiol fel ffrind beirniadol i'r ysgol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Yn dilyn sefydlu amserlen o ystod o weithgareddau monitro, mae'r pennaeth a'r athrawon yn craffu ar lyfrau disgyblion, yn cynnal teithiau dysgu ac yn casglu barn rhieni a rhanddeiliaid. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i adnabod cryfderau ynghyd â'r agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r cyllid yn ofalus o dan ofal gwyliadwrus y corff llywodraethol. Gyda'i gilydd, maent yn cefnogi'r ysgol i reoli a threfnu ei hadnoddau'n effeithiol, sy'n cynnwys y defnydd o'r grant datblygu disgyblion yn dda. Mae gan yr ysgol gynllun gwario synhwyrol sy'n sicrhau digon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae athrawon yn defnyddio'r ardaloedd allanol yn addas i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

Mae'r athrawon yn ysgwyddo cyfrifoldebau niferus ac yn rhannu a chydweithio'n rheolaidd a hyblyg gyda'i gilydd. Maent yn chwarae rôl lawn yn y broses ar gyfer gwerthuso a datblygu cwricwlwm yr ysgol. Mae hyn i'w weld yn arbennig yn y modd y maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored ac wrth fwynhau profiadau sy'n codi o waith yn yr ardal leol.

Mae'r pennaeth wedi creu diwylliant cadarnhaol, sy'n hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol pob aelod o staff yn effeithiol. Mae hyfforddiant staff wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u hanghenion proffesiynol. Mae cymorthyddion addysgu wedi cael hyfforddiant er mwyn gweithredu amrywiaeth o ymyraethau i gefnogi anghenion llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae amcanion staff yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ynghyd â'u hanghenion datblygu unigol. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarn ar gyfer hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae cyfleoedd eang i staff fynychu hyfforddiant ac ymgymryd â chyfrifoldebau rheolaethol sy'n ychwanegu at gapasiti arwain yr ysgol. Mae staff yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill ac yn rhannu arferion da yn gyson o fewn yr ysgol a thu hwnt.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2023